# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, TROSEDD AC ANRHEFN, 19 MAWRTH 2026

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:** Annwen Hughes (Cadeirydd) a Delyth Lloyd Griffiths (Is-gadeirydd)

Beca Brown, Stephen Churchman, Wendy Cleaver, Elwyn Edwards, Jina Gwyrfai, Berwyn Parry Jones, Dafydd Davies, Linda Morgan, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, Peter Thomas, Elfed Williams a Gruffydd Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 5:**
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant), Mannon Trappe (Pennaeth Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol), Laura Evans (Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn) a Stephen Pawson, (Prif Arolygydd - Heledd Gogledd Cymru).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 6:**
Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Amgylchedd) a Roland Thomas (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 7:**
Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Amgylchedd), Gerwyn Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd), Iwan ap Trefor (Rheolwr Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau) a Gwyn Lloyd Evans (Arweinydd Tîm Llwybrau).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Beca Roberts, Arwyn Herald Roberts a Robert Glyn Daniels.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2026, fel rhai cywir.

## 5. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL GAN BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL GWYNEDD A MÔN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant ac yr Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn.

Cadarnhawyd bod yr adroddiad yn darparu diweddariad cynhwysfawr ar waith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol gan ddangos sut mae'n cydweithio er mwyn mynd i'r afael â throsedd ac anrhefn ar draws Gwynedd a Môn ac i wella diogelwch i'n cymunedau.

Eglurwyd bod y Bartneriaeth yn gweithio i gynllun blynyddol sydd yn seiliedig ar flaenoriaethau Strategaeth Bwrdd Gogledd Cymru Fwy Diogel. Ymhelaethwyd bod y Bartneriaeth yn derbyn data chwarterol gan yr heddlu er mwyn nodi tueddiadau, llywio trafodaethau,  cefnogi ymyrraeth gynnar a datrys problemau lleol o fewn cymunedau.

Pwysleisiwyd nad oes gan y Bartneriaeth gyllid craidd parhaol a nodwyd nad yw'n comisiynu gwasanaethau yn uniongyrchol oni bai am Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHR). Eglurwyd bod y bartneriaeth yn ddibynnol yn bennaf ar gyfleoedd grant tymor byr neu gystadleuol i gefnogi ei waith ehangach.

Manylwyd ar weithgaredd y Bartneriaeth gan gadarnhau ei fod yn parhau i ddarparu Cynllun Diogelwch Cymunedol a ffurfio adroddiadau chwarterol ohono i Fwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Fwy Diogel. Nodwyd hefyd bod y Bartneriaeth yn darparu cyfraniad gweithredol i Strategaeth Trais Difrifol Gogledd Cymru gan egluro ei fod yn ddyletswydd genedlaethol newydd.

Mynegwyd balchder bod £65,000 wedi cael ei ddyrannu  ar gyfer saith prosiect ataliol yng Ngwynedd a Môn. Manylwyd bod y prosiectau yng Ngwynedd yn cynnwys:

- Sesiynau 'Peidiwch â Dwyn fy Nyfodol' a gynhaliwyd gan RASASC Cymru (Canolfan Gefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol) er mwyn codi ymwybyddiaeth o drais rhywiol ymhlith disgyblion ac i ddylanwadu ar agweddau ac ymddygiadau.
- Ymgyrch ymwybyddiaeth ynghylch gwerthu 'vapes' anghyfreithlon a cham-fanteisio plant, gan rannu deallusrwydd.
- Darpariaeth ieuenctid ychwanegol dros wyliau ysgol i bobl ifanc 11-25 mewn ardaloedd sydd â risg uchel o droseddu, trais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Prosiect ar y cyd gydag Adran Addysg y Cyngor i leihau eithriadau ac atal trais difrifol drwy hyfforddiant, mentora a gwaith grŵp, gyda'r nod o gadw disgyblion mewn ysgol ac yn ddiogel.

Cyfeiriwyd at brosiectau eraill a gyflawnwyd gan y Bartneriaeth megis uwchraddio camerâu cylch cyfyng yng Nghaernarfon, Bangor a Pwllheli; datblygu a peilota pecyn ymwybyddiaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol ar gyfer staff awdurdodau lleol a bod yn Aelod parhaus o Banel Strategol Diogelu a Grŵp Gweithredol Diogelu'r Cyngor.

Tynnwyd sylw bod y bartneriaeth yn cydweithio'n agos gydag Arweinydd Rhanbarthol ar Hunanladdiad a Hunan-niwed yn y Gwasanaeth Iechyd gan nodi bod gweithdy aml-asiantaeth wedi cael ei ddarparu gan y Bartneriaeth i fanylu ar y cysylltiad rhwng cam-drin domestig a hunanladdiad. Cyfeiriwyd hefyd at waith parhaus yn Bartneriaeth gyda Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol rhanbarthol sydd yn mynd i'r afael â lleihau niwed sydd yn gysylltiedig ag alcohol.

Eglurwyd bod y Bartneriaeth wedi cyflwyno hyfforddiant proffesiynol ar themâu rhywiaeth, gwrywdod a thrais. Cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cais grant cyfalaf VAWDASV (Trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol) er mwyn prynu 100 camera diogelwch i oroeswyr cam-driniaeth ddomestig a chyfrannu at waith rhanbarthol ar safoni 'target hardening' drwy wneud cartrefi dioddefwyr a goroeswyr yn fwy diogel.

Adroddwyd bod cais wedi ei gyflwyno i Raglen Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru i ariannu arwyddion ymwybyddiaeth ar lwybrau beicio er mwyn hybu defnydd parchus o'r llwybrau, lleihau gwrthdrawiadau ac atal anafiadau difrifol i bobl dall a phobl sydd gyda nam ar eu golwg. Yn debyg, nodwyd bod hyfforddiant Iaith Arwyddo Prydain drwy Grŵp Llandrillo Menai wedi cael ei drefnu ar gyfer staff Siop Gwynedd a sefydliadau cam-drin domestig lleol.

Tynnwyd sylw bod y Bartneriaeth yn datblygu Parthau Diogel ar gyfer atal trais yn erbyn menywod a merched yng Nghaernarfon a Bangor yn ogystal â Pharthau 'Crimestoppers' ym Maesgeirchen a Blaenau Ffestiniog er mwyn annog adrodd cyfrinachol ar weithgarwch troseddol.

Cyfeiriwyd at nifer o flaenoriaethau'r Bartneriaeth am y flwyddyn i ddod gan gynnwys sicrhau bod gweithrediad ar yr holl brosiectau a chynlluniau yn parhau, tra hefyd yn denu arian grant ychwanegol i gyflawni prosiectau o'r newydd.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Tynnwyd sylw bod rhai o flaenoriaethau y Strategaeth Bwrdd Gogledd Cymru Fwy Diogel yn cynnwys 'Mynd i'r afael â Thrais difrifol ac Troseddau Cyfundrefnol Difrifol. Mewn ymateb i ymholiad ar sut mae'r troseddau hyn yn cael eu diffinio, y gwahaniaethau rhyngddynt a'r mesurau mewn lle i'w hatal yn cael ei gofnodi er mwyn sicrhau bod y Strategaeth yn gweithio'n effeithlon, cadarnhaodd y Prif Arolygydd bod troseddau difrifol yn achosion megis llofruddiaeth, trais domestig a rhywiol gyda throseddau cyfundrefnol yn ddigwyddiadau sydd wedi cael eu cynllunio a'u cydlynu gan grŵp o droseddwyr. Ymhelaethwyd bod y gwaith o fesur llwyddiant gwaith i atal y troseddau hyn rhag cymryd lle yn waith amlasiantaethol gan bod nifer o sefydliadau yn cofnodi data. Cadarnhawyd bod monitro'r data hyn yn amlygu os yw blaenoriaeth y Strategaeth yn gweithio ai peidio.

Pryderwyd bod cyfraddau lladrata wedi cynyddu 112.5% ers y llynedd (cyfanswm o 34 achos o'i gymharu ag 16 y llynedd) ble roedd Gogledd Cymru fel rhanbarth dim ond wedi gweld cynnydd o 12.4%. Mewn ymateb i ymholiad os oes modd o adnabod clystyrau ble mae troseddau o'r fath yn digwydd er mwyn gallu rhagweld pa ardaloedd bydd yn cael eu targedu, cadarnhaodd y Prif Arolygydd bod prosiect llwyddiannus wedi cael ei gynnal ym Mangor yn ddiweddar er mwyn atal Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a oedd yn ymwneud â chyffuriau. Fodd bynnag, pwysleisiwyd nad oes modd rhagweld unrhyw ddigwyddiad lladrata yn effeithiol gan nad oes patrwm i'r troseddu. Eglurwyd y gallai ddigwydd mewn unrhyw ardal, i wahanol fathau o ddioddefwyr ac yn gallu cael eu sbarduno gan ddefnydd alcohol a chyffuriau neu drwy anghydfodau. Er hyn, pwysleisiwyd bod y mwyafrif helaeth o droseddwyr sydd yn lladrata yn cael eu harestio a'u cyhuddo.

Ymfalchïwyd bod cynlluniau i osod arwyddion ar lwybrau beicio er mwyn gwarchod unrhyw gerddwyr dall neu gyda nam ar eu golwg rhag niwed. Gwnaed sylw eu fod yn bwysig sicrhau bod arwyddion hefyd yn cael eu gosod er mwyn gwarchod unigolion byddar neu sydd gyda trafferthion clyw. Yn yr un modd, rhannwyd syniadau o osod arwyddion mewn mannau cyhoeddus, megis meysydd parcio, er mwyn atgoffa gyrwyr cerbydau trydan bod posibilrwydd nad yw pobl yn eu clywed, er mwyn arbed damweiniau rhag digwydd. Mewn ymateb i'r sylwadau, cytunodd Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn bod sylwadau gwerthfawr wedi codi yn ystod y drafodaeth ac bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i'w ymgorffori i'r gwaith, os bydd y cais i ariannu'r prosiect yn cael ei gymeradwyo. Pwysleisiwyd bod swyddogion yn chwilio am arian grant ychwanegol yn barhaus.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol bod atal troseddau yn erbyn menywod yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bartneriaeth unwaith eto eleni.

Mewn ymateb i ymholiad am y gwahaniaeth rhwng Trais Domestig a Digwyddiad Domestig, eglurodd Pennaeth Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol nad yw digwyddiad domestig yn achos i'r heddlu os nad oes trosedd wedi cymryd lle. Ymhelaethwyd bod adroddiad yn cael ei wneud o bob digwyddiad domestig sydd ddim yn achos i'r heddlu a bod y Gwasanaeth Diogelwch Cymunedol yn gwneud penderfyniad os oes angen ymyrraeth ar achosion drwy asesu os oes gan unigolion fynediad i ofal.

Llongyfarchwyd y swyddogion ar eu gwaith o osod mwy o gamerâu cylch cyfyng. Mewn ymateb i ymholiad os oedd y prosiect hon yn cael ei ehangu i ardaloedd fwy gwledig, nododd Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn bod y prosiect penodol hwn wedi datblygu parth diogel er mwyn gwarchod pobl mewn ardaloedd trefol. Fodd bynnag, gobeithiwyd bydd arian grant yn caniatáu gosod mwy o gamerâu cylch cyfyng yn ystod y flwyddyn, gan nodi bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn asesu'r ardaloedd hynny ble fyddai'n fwyaf effeithiol i osod y camerâu.

Manylwyd ar brosiect 'Peidiwch â Dwyn fy Nyfodol' a gynhaliwyd gan RASASC Cymru gan nodi ei fod yn cydblethu'n effeithiol gyda'r argymhellion a gyflwynwyd yn yr Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant 'Cyfiawnder Trwy ein Dewrder' yn ddiweddar. Mewn ymateb i ymholiadau am fanylder o beth yw cynnwys y digwyddiad, pryd y'i cynhaliwyd, sawl ysgol sydd wedi cymryd rhan ac os yw wedi cael ei rannu'n ehangach gyda sefydliadu megis clybiau ieuenctid, cadarnhaodd Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn bod y prosiect wedi dod i ben. Fodd bynnag, eglurwyd bod gan swyddogion gyfarfod gyda swyddogion grantiau yn y dyfodol agos a bydd cais yn cael ei wneud i dderbyn yr holl wybodaeth yma er mwyn ei adrodd yn ôl i'r Aelodau yn dilyn y cyfarfod hwn. Ymhelaethodd Pennaeth Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol bod parhad y prosiect hwn yn ddibynnol ar arian grant gan nad os unrhyw gyllideb ar ei gyfer, gan gydnabod nad oes modd cyfarch pob angen sydd yn codi.

Tynnwyd sylw bod Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel 2025-28 yn nodi 'Mynd i'r afael â Thrais Difrifol' gan gynnwyd trawma yn ystod plentyndod, fel Blaenoriaeth. Mewn ymateb i ymholiad ar ba gamau gweithredu sydd ar waith er mwyn gwireddu'r blaenoriaeth hon drwy gydweithio gyda partneriaid tra hefyd yn ystyried heriau ychwanegol mewn ardaloedd gwledig, eglurodd yr Aelod Cabinet bod Bwrdd Rhanbarthol yn edrych ar y camau gweithredu yn ymwneud â'r mater hwn. Pwysleisiwyd bod y gwaith yn flaenoriaeth ac bod hyfforddiant mandadol wedi cael ei gyflwyno i'r Bartneriaeth a'i fod yn cael ei raeadru i lawr i bob sefydliad er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r dull mwyaf priodol o weithredu mewn sefyllfaoedd o'r fath.

Mewn ymateb i ymholiad am y gwaith mae'r Cyngor yn ei wneud er mwyn derbyn achrediad Trawma Wybodus, cytunodd yr Aelod Cabinet ei fod yn waith pwysig y dymunai ei weld yn cael ei gyflawni. Ymhelaethwyd ei fod yn hanfodol bod pawb yn ymwybodol o drawma a sut mae symptomau o drawma posib yn gallu ymddangos mewn unigolion, gan bwysleisio bod hyfforddiant trawma wybodus yn flaenoriaeth. Sicrhawyd y gobeithiwyd bydd cais yn cael ei gyflwyno yn fuan er mwyn gallu derbyn achrediad Trawma Wybodus, gan ddiolch i bawb sydd wedi bod yn gweithio tuag ato hyd yma.

Mewn ymateb i ymholiad ar ddata am y nifer o sesiynau a'r nifer o unigolion sydd wedi cyflawni hyfforddiant VAWDASV (Trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol), nododd Pennaeth Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol bod gan y swyddogion y data perthnasol ac y byddai'n cael ei rannu gyda'r Aelodau yn dilyn y cyfarfod hwn. Ychwanegwyd y bydd y wybodaeth hon yn cael ei gynnwys o fewn yr Adroddiad Blynyddol yn y dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiad ar sut mae prosiectau yn cael eu cynnwys neu ei dynnu yn ôl o waith y Bartneriaeth, eglurodd yr Aelod Cabinet mai’r Bartneriaeth ei hun sydd yn penderfynu hynny o fewn ei gyfarfodydd. Ymhelaethodd y Pennaeth Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol bod y Bartneriaeth yn edrych ar Gynllun Blynyddol Rhanbarth Gogledd Cymru yn gyntaf ac yna yn blaenoriaethu prosiectau i gyd fynd ag o. Eglurodd Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn bod y Cynllun Blynyddol nesaf yn cael ei gymeradwyo ym mis Ebrill ac bydd y Bartneriaeth yn cydweithio gyda’r Rhanbarth er mwyn datblygu unrhyw flaenoriaethau newydd yn unol â’r angen. Ymhellach, pwysleisiodd y Prif Arolygydd bod Heddlu Gogledd Cymru yn rhannu data gyda’r Bartneriaeth yn gyson, ar lefelau rhanbarthol a chymunedol, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu blaenoriaethu prosiectau yn unol â’r data hynny.

Tynnwyd sylw y byddai’n ddefnyddiol derbyn map o fewn yr Adroddiad Blynyddol hwn i’r dyfodol er mwyn gallu gweld os oes ardaloedd gyda mwy o droseddau ac i ystyried os yw’r ardaloedd hynny yn fannau twristiaeth poblogaidd. Mewn ymateb i’r sylwadau, cadarnhaodd y Prif Arolygydd bod modd datblygu map o’r fath a byddai’n ymdrechu i’w gynnwys o fewn yr adroddiadau i’r dyfodol. Diolchodd yr Aelod Cabinet i Heddlu Gogledd Cymru am eu cydweithrediad parhaus ac am eu parodrwydd i rannu data yn rheolaidd gyda’r Bartneriaeth.

Diolchwyd am yr adroddiad

**Penderfynwyd:**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi’r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
- **Gofyn bod Adroddiadau Blynyddol yn y dyfodol yn cynnwys data am fesurau perfformiad gan gynnwys mesurau yng nghyswllt troseddu, a map sy’n amlygu lleoliad troseddau.**
- **Gofyn i dderbyn data a gwybodaeth bellach am y sesiynau ‘Peidiwch â Dwyn fy nyfodol’, cynhaliwyd gan RASASC Cymru (Canolfan Gefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol).**
- **Gofyn am ddata am y nifer o sesiynau a’r nifer o unigolion sydd wedi cyflawni hyfforddiant VAWDASV (Trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol), a bod y data hwn yn cael ei gynnwys o fewn yr Adroddiad Blynyddol yn y dyfodol.**
- **Annog Cyngor Gwynedd i symud ymlaen i dderbyn achrediad ‘Cyngor Trawma Wybodus’.**

## 6. GWASANAETHAU CASGLU GWASTRAFF AC AILGYLCHU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd a Phennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd. Tynnwyd sylw at y prif bwyntiau canlynol.

Adroddwyd bod yr Adran yn gweithio i ddatblygu Strategaeth Gwastraff ar hyn o bryd gan ymgymryd ag agwedd uchelgeisiol er mwyn datrys problemau. Cydnabuwyd bod targedau Llywodraethau megis y targed o ailgylchu 70% o holl wastraff y sir, yn heriol iawn i’w cyfarch.

Cadarnhawyd bod yr Adran wedi addasu strwythur gweithredol trefniadau casglu gwastraff i ddwy ran er mwyn gwella perfformiad. Eglurwyd bod ardal y De yn gweithredu ar gyfer Dwyfor a Meirionnydd gyda’r Gogledd yn gwasanaethu Arfon. Adroddwyd bod addasu’r strwythur gweithredol wedi gwella perfformiad y gwasanaeth. Yn debyg, atgoffwyd bod system Bartec yn cael ei ddefnyddio gan yr Adran er mwyn addasu cylchdeithiau yn ddynamig ac yn unol ag anghenion gweithredol y gwasanaeth. Tynnwyd sylw y bydd

aelodau yn derbyn cyflwyniad ar sut mae'r systemau yma yn cynorthwyo'r adran yn Fforymau Ardal y Cyngor yn hwyrach ymlaen eleni. Yn yr un modd, adroddwyd bod gosod system camerâu ar y cerbydau casglu hefyd wedi cynorthwyo i wella gweledigaeth i waith y staff, gwella iechyd a diogelwch a cyflwyno'r gallu i ymateb i gwynion gyda tystiolaeth gadarn.

Eglurwyd y cynhaliwyd ymgynghoriad yn ddiweddar fel rhan o ddatblygu'r Strategaeth Gwastraff. Nodwyd y derbyniwyd 1,245 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Adroddwyd bod 62% o'r ymatebwyr yn nodi bod eu bin gwastraff gweddilliol dim ond tua thri chwarter llawn neu lai ar ddiwedd y cyfnod o 3 wythnos. Ymhelaethwyd bod 15% o ymatebwyr yn nodi nad oeddent yn gallu ymdopi gyda capasiti presennol y bin a'r amserlen casglu gan ei fod yn llawn cyn y diwrnod casglu. Tynnwyd sylw bod ail-asesu amlder casglu a maint y biniau gweddilliol yn gallu bod yn ddiwygiad a all ei gyflawni er mwyn cefnogi'r Cyngor i gyrraedd y targed o ailgylchu 70% o wastraff. Pwysleisiwyd bod yr Adran yn cydweithio gyda WRAP Cymru (Waste and Resources Action Programme) er mwyn ymchwilio i'r gwahaniaeth gwirioneddol byddai addasu hyn yn ei wneud .

Atgoffwyd bod yr Adran wedi cychwyn treialu defnyddio sachau hessian yn hytrach na'r cart-gylchu, gan adrodd bod canlyniadau'r treial hwnnw yn gymharol lwyddiannus. Nodwyd bod bwriad i gynnal treialon mewn ardaloedd eraill o'r sir cyn yr haf. Esboniwyd bod y sachau yn rhatach na'r cartgylchu ac y byddent yn caniatáu mwy o gapasiti ailgylchu i drigolion petai'r Cyngor yn penderfynu ailgylchu mwy o nwyddau fel plastigion meddal.

Cadarnhawyd bod gwaith yn parhau i wella ymddygiadau trigolion tuag at ailgylchu gan nodi bydd llythyr yn cael ei yrru i bob cartref yn y Sir dros yr wythnos nesaf er mwyn gwella ailgylchu yng Ngwynedd. Wrth ystyried materion gorfodaeth o fewn y gwasanaethu gwastraff, cadarnhawyd nad oes modd cynnal gwasanaethau gorfodaeth os yw aneddleoedd yn gor-gynhyrchu gwastraff oni bai ei fod yn arwain at faterion megis tipio slei bach.

Mynegwyd balchder bod sefyllfa gorwariant y gwasanaeth wedi gwella ond cydnabuwyd bod lle i wella er mwyn bod mewn sefyllfa ble mae cyllideb gytbwys. Ymfalchïwyd bod perfformiad y gwasanaeth y gwella tra mae'r gorwariant yn y gyllideb yn lleihau, tra hefyd yn pwysleisio bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn ceisio lleihau'r gorwariant hwnnw ymhellach.

Cydnabuwyd bod ffocws yr Adran wedi bod ar y gwasanaeth casglu gwastraff ac ailgylchu, gan nodi bod gwaith i'w wneud i wella'r gwasanaeth dosbarthu biniau. Nodwyd yr amlygwyd hyn o fewn ymgynghoriad diweddar ble roedd nifer o sylwadau bod angen gwella'r gwasanaeth hwn. Pwysleisiwyd bod y gwasanaeth yn mynd i fod dan reolaeth Rheolwr newydd o fewn yr Adran er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn derbyn sylw i'r dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan yr Aelodau:-

Mynegwyd pryder bod y Cyngor wedi methu cyfarch targed y Llywodraeth i ailgylchu 70% o wastraff eleni, gan ofyn faint o ddirwy sydd yn wynebu'r Cyngor a sut mae gwasanaethau eraill yn cael eu heffeithio'n negyddol o'i herwydd. Mewn ymateb i'r ymholiadau, pwysleisiodd y Pennaeth Cynorthwyol bod angen gwneud newid sylweddol er mwyn cyfarch y targed hwn, gan gydnabod na fydd y Cyngor yn gwneud hynny yn y byrdymor. Atgoffwyd o'r angen i asesu amlder casgliadau neu maint y biniau gweddilliol er mwyn cyfarch y targed hwn a bod trafodaethau yn cael eu cynnal gydag Awdurdodau Lleol eraill er mwyn derbyn mewnwelediad ar lwyddiant y newid hwn. Cadarnhawyd nad yw'r Cyngor wedi derbyn dirwy am beidio â chyrraedd y targed ar hyn o bryd ond rhagrybuddiwyd y byddai'n gallu bod hyd at £600,000 o gostau. Pwysleisiwyd bod y Cyngor mewn trafodaethau rheolaidd gyda'r Llywodraeth a gobeithiwyd bod arddangos cynlluniau i

sicrhau bod Gwynedd yn cyrraedd y targed o 70% yn eu bodloni, ac na fydd y Cyngor yn derbyn dirwy.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag amserodd casglu gwastraff, gyda rhai Aelodau o'r farn bod casgliadau yn digwydd yn rhy gynnar yn y bore gan achosi sŵn ac aflonyddwch i drigolion, ac eraill yn falch eu bod yn cael eu casglu yn fuan yn y bore. Mewn ymateb i'r drafodaeth, eglurodd y Pennaeth Cynorthwyol bod staff y gwasanaeth yn gweithio o 6:00 y bore hyd at 1:45 y prynhawn ac nid oes unrhyw gwynion wedi cyrraedd y gwasanaeth gan y cyhoedd nac aelodau staff yn nodi bod y cylchdeithiau yn digwydd yn rhy fuan yn y bore. Ychwanegwyd mai'r bwriad yw sicrhau bod casgliadau yn cael eu gwneud yn fuan yn y bore fel nad oes trafferthion yn codi wrth i drigolion deithio i'r gwaith neu'r ysgol ac bod modd cadw'r biniau cyn iddynt adael y tŷ mewn rhai achosion fel nad ydynt yn cael eu chwythu neu eu difrodi.

Gwnaed sylw bod nifer o siopau ac archfarchnadoedd yn derbyn plastigion a phecynnau bwyd anifeiliaid anwes er mwyn i'w ailgylchu, gan ofyn i'r Adran sicrhau eu bod yn ymchwilio i'r rhain hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hailgylchu'n effeithiol gan gartrefi Gwynedd.

Mewn ymateb i ymholiad ar gyfradd halogiad deunyddiau ailgylchu , nododd y Pennaeth Cynorthwyol ystyriwyd bod y gyfradd halogiad yn gymharol uchel yng Ngwynedd oherwydd bod y swm mae Gwynedd yn ei dderbyn gan gwmnïau am y deunydd ailgylchu yn is na siroedd eraill.

Mewn ymateb i ymholiad os oes cynlluniau i ailgylchu batris bychan o gartrefi, eglurodd y Pennaeth Cynorthwyol bod modd eu hailgylchu drwy ymweld ag unrhyw ganolfan ailgylchu lleol. Ymhelaethwyd bod bwriad i gynnwys bartis o fewn cylchdeithiau casgliadau ond mae ffocws yn cael ei roi ar hyn o bryd ar sicrhau bod modd ailgylchu plastigion meddal yn effeithiol gan fod rheoliadau Llywodraeth Cymru ar y mater hwnnw yn dod yn weithredol ym mis Ebrill 2027. Tynnwyd sylw hefyd byddai ychwanegu bocs neu sach i gasglu'r batris yn gostus i'r Cyngor gan fod tebygolrwydd bod angen casglu batris yn aml yn annhebygol. Fodd bynnag, nodwyd bod gwaith ymchwil yn cael ei wneud ar y mater hwn.

Adroddwyd bod nifer o siopau lleol yn gwerthu rhai nwyddau megis llefrith ac sudd oren mewn poteli gwydr erbyn hyn, ond nid oes modd dychwelyd y poteli hynny yn ôl i'r siop ar gyfer eu hailddefnyddio. Mewn ymateb i'r sylwad, tynnwyd sylw'r Aelodau at Gynllun Dychwelyd Ernes Llywodraeth Cymru a fydd yn weithredol yn fuan iawn. Eglurwyd bydd y cynllun hwn yn caniatáu i drigolion ddychwelyd poteli gwydr yn ôl i siopau er mwyn derbyn arian i ffwrdd o'r cynnyrch wrth iddynt ei brynu eto.

Amlygwyd bod 12 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi llwyddo i gyrraedd targed y Llywodraeth o ailgylchu 70% o'i wastraff. Holwyd pa gynlluniau sydd ar y gweill gan yr awdurdodau lleol yma ac a ellir eu hymgorffori yng Ngwynedd. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod anghysondeb yn y dull o gofnodi'r gwaith tuag at gyflawni'r targed hon ar draws Cymru felly nid oes modd cymharu'n effeithiol gydag unrhyw Sir arall. Fodd bynnag, ystyriwyd bod lle i wella drwy weithio gyda busnesau er mwyn sicrhau bod eu cyfraddau ailgylchu yn gwella o'r cyfraddau presennol.

Tynnwyd sylw bod gwastraff yn parhau i ddod allan o'r lorïau wrth iddynt gyflawni'r cylchdeithiau, gan adael sbwriel ar ymylon ffyrdd. Derbyniodd y Pennaeth Cynorthwyol y sylwadau gan nodi bydd staff yn cael eu atgoffa i sicrhau bod holl ddrysau'r cerbyd wedi eu cau yn ddigonol cyn gyrru i ffwrdd er mwyn sicrhau nad yw hyn yn parhau i ddigwydd. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet bod y sefyllfa hon wedi gwella o gymharu â'r gorffennol.

Amlygwyd bod sbwriel sydd wedi ei adael ar ymyl ffyrdd i'w weld yn fwy amlwg ar ôl i'r gwair ar ymylon ffyrdd gael ei dorri, gan ofyn i'r Adran ystyried sicrhau bod timau casglu gwastraff yn dilyn cylchdeithiau torri ymylon ffyrdd er mwyn datrys y broblem hon.

Mewn ymateb i ymholiad ar sut mae cwmnïau yn pecynnu nwyddau ar gyfer eu danfon yn y post, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod treth wedi cael ei osod ar gwmnïau ers y llynedd er mwyn sicrhau bod yr holl becynnu yn gallu cael ei ailgylchu. Nodwyd nad oes digon o amser wedi mynd rhagddo ers i'r trethiant hwn ddod yn weithredol er mwyn gallu gweld os yw cwmnïau wedi gwneud newidiadau o'i herwydd. Eglurwyd bydd yr arian a wnaed o'r dreth hon yn cael ei ddyrannu i'r Awdurdodau Lleol er mwyn ymateb i heriau pecynnu.

Adroddwyd bod casgliadau ailgylchu weithiau yn cael eu cwblhau gan ddefnyddio faniau pan nad oes lorïau ar gael neu ar gyfer casgliadau ar ffyrdd cul. Tynnwyd sylw bod cynnwys y bocsys yn cael eu cymysgu gyda'i gilydd yn yr achosion hyn gan ofyn a ydynt yn cael eu didoli wedi iddynt gyrraedd y ganolfan ailgylchu. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol fod y faniau hyn yn rai sydd wedi cael eu datblygu gan Wynedd a bellach yn oddeutu 7-8 oed ac wedi dyddio. Ychwanegwyd bod trafferthion yn codi'n aml gyda'r cerbydau hyn gan eu bod yn torri i lawr yn aml a ddim yn addas i bwrpas oherwydd bod y gwastraff yn cael ei gymysgu. Fodd bynnag, adroddwyd bod yr Adran wedi comisiynu cwmni i ddylunio lorïau pwrpasol er mwyn mynd i'r afael a'r sefyllfa. Pwysleisiwyd pan mae'r faniau yn cael eu defnyddio ar gyfer casgliadau, bod gwaith yn cael ei wneud i fynd drwy'r gwastraff er mwyn ei ddidoli.

Mewn ymateb i ymholiad os oedd treialon sachau hessian yn cael ei gynnal yn ardal Dwyfor, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol nad oes cynlluniau penodol ar hyn o bryd ond gobeithio bydd mwy o dreialon yn cael eu cynnal cyn yr haf gan wahodd Aelodau i gysylltu gyda'r Adran os ydynt yn ymwybodol o unrhyw gymunedau a fyddai'n awyddus i gymryd rhan. Ymhelaethwyd bod angen cynnal treial arall er mwyn sicrhau bod y sachau yn safonol, ddim yn cael eu cipio gan wynt ac yn rhoi cyfle i addysgu trigolion ar eu defnydd. Cyfeiriwyd at rai o fanteision defnyddio sachau hessian dros y defnydd o gartgylchu gan nodi os yw'r sachau yn cael eu cipio gan wynt, bod y gwastraff dal wedi ei gyfyngu i'r sach, ble nad yw hyn yn wir am y cartgylchu gan y gwelir gwastraff wedi ei wasgaru os yw'n cael ei gipio gan y gwynt. Tynnwyd sylw bod oddeutu 60,000 cartgylchu wedi eu lleoli ar draws Gwynedd a pwysleisiwyd nad oes unrhyw ofyniad i bobl beidio eu defnyddio gan sicrhau byddai newid i ddefnyddio sachau yn broses dros gyfnod. Cadarnhawyd na fydd gorfodaeth ar unrhyw un i beidio â defnyddio cartgylchu ac byddent yn parhau i gael eu defnyddio yn y dyfodol. Er hyn, cadarnhawyd fod cost darparu cartgylchu newydd yn uchel o gymharu â cost darparu sachau hessian.

Mewn ymateb i ymholiad ar yr angen i gasglu biniau a bocsys sydd wedi torri wrth ddanfon cyfarpar newydd, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod trefniadau mewn lle i gasglu unrhyw offer sydd wedi ei dorri wrth ddanfon rhai newydd, gan ofyn i unrhyw un gysylltu gyda gwasanaeth casglu biniau'r Adran os nad yw hyn yn digwydd.
Diolchwyd am yr adroddiad.

**Penderfynwyd:**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
2. **Argymell i'r Aelod Cabinet Amgylchedd:**
    - **dylid ystyried dwysáu hyfforddiant/ymgyrchoedd i addysgu ar bwysigrwydd ailgylchu.**
    - **dylid ystyried cyflwyno cosbau am fethu ag ailgylchu'n briodol.**

## 7. LLWYBRAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Amgylchedd, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd, Rheolwr Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau ac Arweinydd Tîm Llwybrau. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Adroddwyd bod llwybrau hawliau tramwy cyhoeddus yn adnodd gwerthfawr sydd yn cyfarch nifer o amcanion strategol y Cyngor, tra bod eu defnyddwyr yn cael mwynhau tirwedd amrywiol y Sir. Ymhelaethwyd eu bod yn ddull o sicrhau mynediad i awyr iach ar gyfer ei ddefnyddwyr, yn ddull da o gadw'n iawn ac yn heini tra hefyd yn adlewyrchu hanes a diwylliant y cymunedau. Mynegwyd bod rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus Gwynedd yn hirfaith, gyda chymaint o filltiroedd o lwybrau i'w troedio, ei fod yn gyfystyr â cherdded o Gaernarfon i Cairo (2,418 milltir).

Eglurwyd bod y llwybrau hawliau tramwy cyhoeddus yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru, rhwydwaith Lonydd Glas yng Ngwynedd a nifer o lwybrau teithiau llesol sydd yn cael eu datblygu gan y Cyngor, ynghyd â llwybrau eraill.

Cyfeiriwyd at rai o heriau'r gwasanaeth yn deillio o doriadau yng nghyllidebau, tra bod disgwyliad deddfwriaethol parhaus ar y Cyngor i sicrhau bod rhai o'r llwybrau yn aros ar agor ar gyfer defnydd.

Cyfeiriwyd at raglen waith y Tim Llwybrau gan egluro bod eu prif weithgareddau yn cynnwys:

- Torri tyfiant tymhorol
- Adnewyddu seilwaith (pontydd, waliau, gatiau, camfeydd, cylfats)
- Gosod seilwaith newydd
- Gweithredu cynllun arwyddo
- Ymateb i ymholiadau, cwynion a cheisiadau rhyddid gwybodaeth
- Ymdrin a holl faterion cyfreithiol y maes:
    - Cynnal y map/cofnod swyddogol o ran tramwy cyhoeddus yn y Sir
    - Ymdrin â cheisiadau am hawliadau, newidiadau a gwyriadau i'r rhwydwaith a'r map swyddogol sydd yn ddarostyngedig i brosesau cyfreithiol.

Cadarnhawyd bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau bod y llwybrau hyn mor hygyrch a phosib, gan gyfnewid camfeydd am giatiau ble'n bosib fel bod modd i fwy o ddefnyddwyr ddilyn y llwybrau.

Ychwanegwyd bod effeithiau newid hinsawdd a thywydd cythryblus yn gallu gorfodi swyddogion i newid trywydd llwybrau, os nad oes modd ei ddefnyddio mwyach megis os oes tirlithriadau wedi bod ger unrhyw lwybr. Nodwyd bod costau ychwanegol er mwyn gwneud hyn sydd yn cael effaith ar gyllidebau'r gwasanaeth.

Nodwyd bod gwaith ar droed i addasu polisi hawliau tramwy a'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gan gadarnhau bydd y gwasanaeth yn cynnal ymgynghoriad ar y mater. Gobeithiwyd bydd trawstoriad o wahanol gymunedau o wahanol ardaloedd o'r Sir yn cyfrannu sylwadau ac adborth o fewn yr ymgynghoriad hwnnw.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan yr Aelodau:-

Tynnwyd sylw ni ellir defnyddio nifer o lwybrau o fewn y sir oherwydd gordyfiant. Mewn ymateb, eglurodd Arweinydd y Tîm Llwybrau bod diffyg adnoddau wedi gorfodi'r Tîm i gategoreiddio llwybrau yn unol â'r defnydd ohonynt gan nodi nad oes cyllidebau nac adnoddau ar gael i gynnal a chadw pob un llwybr o fewn y Sir. Ymhelaethwyd bod y Tîm yn

ddibynnol ar adborth gan Gynghorau Cymuned ac Aelodau Lleol i nodi pa lwybrau sydd yn cael y mwyaf o ddefnydd o fewn eu hardaloedd, a chynnal trafodaethau gyda'r Tîm. Mewn ymateb i ymholiad pellach, eglurwyd nad oes modd tynnu unrhyw lwybr oddi ar map y rhwydwaith heb broses cyfreithiol gan egluro pam bod y llwybrau hyn dal i ymddangos i drigolion.

Mewn ymateb i ymholiad ar gategoreiddio llwybrau, eglurodd Arweinydd y Tîm Llwybrau bod 4 categori gwahanol, gyda chategori 1 a 2 yn derbyn sylw parhaus y Tîm. Eglurwyd bod y categorïau hyn wedi cael eu ffurfio gyda chymorth y cynghorau cymuned gan eu bod wedi adrodd ar ba lwybrau mae'r defnydd mwyaf. Cydnabuwyd bod y gwaith hwn wedi cael ei gyflawni peth amser yn ôl erbyn hyn ond pwysleisiwyd bod y Tîm yn ystyried ceisiadau gan gynghorau ac unigolion i ail-gategoreiddio llwybrau. Nodwyd bod modd i'r cyhoedd weld pa gategori yw unrhyw lwybr maent yn dymuno ei ddefnyddio wrth fynd ar Map Gwynedd ar wefan y Cyngor. Eglurwyd ei fod yn debygol bod llwybrau categori 3 a 4 yn rhai sydd ddim yn derbyn sylw cynnal a chadw ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i ymholiad o ran cael mewnbwn therapyddion galwedigaethol a phobl anabl er mwyn sicrhau mynediad i bawb, eglurodd y Pennaeth Cynorthwyol eu bod wedi bod yn ceisio recriwtio mwy o randdeiliaid i fod yn aelodau o'r Fforwm Mynediad Lleol. Ymhelaethodd yr Arweinydd Tîm Llwybrau bod aelodau yn cynrychioli grwpiau anabl ar y Fforwm a bod eu sylwadau yn bwydo i mewn i'r gwaith o sicrhau mynediad i bawb.

Tynnwyd sylw penodol at ran o Lon Eifion ym Mhenygroes sydd wedi cau yn ddiweddar oherwydd difrod yn dilyn tywydd garw. Mewn ymateb i'r sylwadau, cydnabod y Pennaeth Cynorthwyol y gobeithiwyd bod y llwybr wedi ail agor erbyn gwyliau'r Pasg eleni ond roedd y dyfynbrisiau a dderbyniwyd gan gwmnïau i weithio ar y llwybr yn gostus iawn a ddim yn darparu gwerth am arian. Eglurwyd y gobeithiwyd disgwyl tan y flwyddyn ariannol newydd a bod y llwybr yn ailagor mor fuan â phosib yn dilyn hynny. Cadarnhawyd bydd diweddariad yn cael ei rannu gyda'r aelodau cyn gynted â bod modd. Pwysleisiwyd nad oes arian argyfwng o fewn y cyllidebau.

Diolchwyd am yr adroddiad gan ddiolch i'r Tîm am eu gwaith.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a gorffennodd am 1:25yp

**CADEIRYDD**